Mary Mitchell Slessor 1848–1915
Cenhades Calabar

Pan ddechreuodd y mudiad cenhadol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, dynion oedd pob cenhadwr. Byddai gwragedd yn cynorthwyo eu gwŷr mewn gwaith cenhadol ond ni chlywid byth am ferched sengl yn cyflawni'r gwaith. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd pethau'n newid.

Pan sefydlodd Hudson Taylor y genhadaeth yn China (China Inland Mission) ym 1865, cytunodd i anfon merched sengl i ganolbarth y wlad i weithio gyda merched eraill. Felly pan wnaeth Mary Slessor gais i ymuno â Chenhadaeth Calabar ym 1875 nid oedd unrhyw anhawster i'w derbyn.

Yn Gilcomston, ardal o Aberdeen, y ganwyd Mary Mitchell Slessor ar 2 Rhagfyr 1848, yr ail o saith o blant i'r crydd Robert a'r gwehydd Mary. Cafodd fagwraeth dlawd a difreintiedig a hynny'n rhannol oherwydd alcoholiaeth ei thad. O ganlyniad i'w feddwdod collodd ei thad ei waith a bu'n rhaid i'r teulu symud o Aberdeen i Dundee. Un ystafell oedd i'w chartref newydd ac nid oedd dŵr, golau na thŷ bach. Ar y Sul byddai eu mam yn mynd â hwy i'r eglwys Bresbyteraidd leol ac yno clywodd yr Efengyl am y tro cyntaf.

Pan oedd yn ddeg treuliai hanner ei diwrnod mewn ysgol a'r hanner arall yn gweithio mewn melin. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed dechreuodd weithio yn llawnamser, 58 awr yr wythnos, yn gwehyddu.

Dangosodd ddiddordeb cynnar mewn gwaith cenhadol. Cafodd dröedigaeth yn ei harddegau ac fe'i harweiniwyd ymhellach i ystyried gwaith cenhadol pan ddarllenodd yn y *Missionary Record* am ei harwr David Livingstone. Gwelodd yr angen i'w haddysgu ei hun er mwyn mynd i'r genhadaeth ac felly ymunodd â dosbarthiadau nos. Fe'i hanogwyd gan weinidog yr eglwys i helpu yn yr Ysgol Sul a chyda gwaith ieuenctid. Gwnaeth gais i fynd i Calabar ac fe'i derbyniwyd.

Wedi cyfnod o dri mis o hyfforddiant yn Moray House, Caeredin, hwyliodd ym mis Awst 1876 i Calabar sydd bellach yn ne-ddwyrain Nigeria, Gorllewin Affrica. Yn ystod ei harhosiad cyntaf bu yno am dair blynedd yn dysgu'r iaith Efik. Yn ystod ei hail arhosiad fe'i penodwyd i oruchwylio gorsaf genhadol yn Old Town. Bu'n ddiwyd yn ymestyn allan ymhellach i'r wlad. Sefydlodd dair gorsaf genhadol newydd a gweithiai fel athrawes a nyrs ardal gan rannu moddion a chynnal pedair oedfa'r Sul.

Cam pwysig ganddi oedd penderfynu gwisgo a bwyta fel y brodorion. Gwisgai yn syml a thorrai ei gwallt yn fyr gan fwyta bwydydd lleol. Trwy hyn daeth yn llawer mwy derbyniol yng ngolwg y bobl leol ac roedd hon yn ffordd effeithiol o dystio i'r ffydd.

Yn ddiweddarach mentrodd i mewn i'r tir mawr er mwyn cyrraedd llwyth yr Okoyong a symudodd i bentref Ekenge. Caniatawyd iddi aros yno gan y Pennaeth Edem ac yn y diwedd cafodd gwt iddi ei hun oedd yn arwydd ei bod yn dderbyniol.

Ni allai oddef y creulondeb mawr a welai ac weithiau byddai'n herio penderfyniad y pennaeth i ddedfrydu pobl i farwolaeth. Ym 1898 fe'i penodwyd yn is-gonswl i oruchwylio dros lys brodorol Ikot Obong.

Bu Mary Mitchell Slessor farw yn Calabar ar 13 Ionawr 1915 a chladdwyd ei gweddillion mewn mynwent leol. Heddiw mae ei henw ar ysbyty sydd yn gwasanaethu pobl Calabar. Trwy ei llafur tanseiliwyd ofergoeliaeth, sefydlwyd ysgolion, arbedwyd babanod ac efeilliaid rhag cael eu lladd a phregethwyd yr Efengyl.